

"Rwy'n teimlo dan anfantais oherwydd nad ydw i'n cael fy nhrin yn gyfartal ag aelodau eraill o staff. Beth ddylwn i wneud?"

Dylid sicrhau bod gan staff a'r disgyblion/myfyrwyr gyfle i godi materion yn ymwneud ag anghydraddoldeb yn y gweithle, e.e. gyda rheolwr llinell neu diwtor personol, ar adegau yn ystod y flwyddyn.

Os ydych yn teimlo nad ydych yn cael eich trin yn gyfartal oherwydd anabledd neu salwch hir dymor, cysylltwch ag un o Swyddogion Maes UCAC i drafod eich sefyllfa ac i gael cyngor a chefnogaeth pellach.

Mae gan gyflogwyr, hefyd, fynediad at Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol er mwyn cynnig cyngor lle bo angen.

Cynllun 'Mynediad at Waith'

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cynllun 'Mynediad at Waith' sy'n rhoi cefnogaeth ymarferol ac ariannol i helpu unigolion i oresgyn rhwystrau i ddechrau neu gadw swydd. Gall 'Mynediad at Waith' hefyd roi cyngor ac arweiniad ymarferol i gyflogwyr, i'w helpu i ddeall iechyd corfforol a meddyliol a sut gallant gefnogi cyflogai.

Rhagor o wybodaeth am y cynllun Mynediad at Waith a chyfarwyddiadau ar sut i gyflwyno cais:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/408980/dwpf03w-mar-2015.pdf

Taflen wybodaeth UCAC: [Dyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl](#)

Os ydych yn teimlo eich bod yn cael eich trin yn anghyfartal am resymau eraill, mae'n bwysig eich bod yn cael sgwrs gyda Swyddog Maes UCAC er mwyn trafod eich sefyllfa unigol. Gall Swyddog Maes UCAC eich cefnogi mewn trafodaethau â phennaeth y sefydliad.